Arwain 2017
Prifysgol Abertawe
Swansea University

Sefydlu canolfan arloesol er cof am Rhodri Morgan

Yr haf yma, gwelir sefydlu Academi Morgan ym Mhrifysgol Abertawe er cof am gyfraniad enfawr cyn-brif weinidog cyntaf Cymru a fu'n Ganghellor y Brifysgol ers 2011.

Roedd Rhodri Morgan yn boblogaidd iawn ymysg staff a myfyrwyr y Brifysgol, a chaiff ei gofio am fod yn ddyn cynnes ac agos atoch. Roedd yn arfer dweud na fyddai'n bod oni bai am Brifysgol Abertawe, lle daeth ei rieni ynghyd.



Mae Academi Morgan yn cael ei sefydlu fel uned bolisi o fewn y Brifysgol er mwyn mynd i'r afael â'r pynciau llosg hynny sydd yn her yng Nghymru a thu hwnt.

Eisoes, mae'r Academi wedi cynnal cynadleddau ar destun Brexit a dyfodol y gwasanaeth iechyd. Bydd yn manteisio ar arbenigedd y Brifysgol mewn rhychwant o feysydd er mwyn chwilio am atebion dychmygus i heriau amrywiol – o ffracio ac ynni niwclear yng Nghymru, i agweddau at gyfreithloni cannabis, neu ddyfodol gofal cymdeithasol.

Bydd yr Academi yn cael ei harwain gan ei chyfarwyddwr cyntaf, yr Athro Mike Sullivan, a phenodwyd y cyn-aelod Cynulliad a Phrif Weithredwr Youth Cymru, Helen Mary Jones yn ddirprwy iddo. Mae'r awdur, athronydd a'r ymgyrchydd iaith, Dr Simon Brooks, wedi ei benodi yn Athro Cynorthwyol, a'r Dr Alan Sandry a Syd Morgan wedi eu penodi yn staff ymchwil yn sgil eu harbenigedd mewn hunaniaeth Gymreig mewn cyd-destun Ewropeaidd. Bydd y cyn-newyddiadurwr a'r cyn-ymgynghorydd i Lywydd y Cynulliad, Dr Aled Eirug, hefyd yn cynorthwyo'r Academi i sefydlu ei hun yn ddylanwad pwysig ar bolisi cyhoeddus i'r dyfodol.

GWEITHIO I DRAWSNEWID CYMRU

"Ymroddodd Rhodri Morgan yn frwdfrydig i'w rôl fel Canghellor Prifysgol Abertawe ac roedd wrth ei fodd yn gweithredu fel llysgennad diwyd dros y Brifysgol yng Nghymru a thramor. Roedd yn falch o'r cyfle i hyrwyddo'r ymchwil o safon byd-eang sydd i'w gael yn Abertawe a lledaenu'r neges am ein rhaglenni cyfnewid myfyrwyr. Roedd ei deimladau cynnes dros y Brifysgol, Abertawe a Chymru, bob amser yn amlwg yn ei eiriau ac yn ei ymddygiad. Rydym yn falch iawn, felly, o fedru talu teyrnged iddo trwy sefydlu Academi yn ei enw a fydd yn gweithio i drawsnewid Cymru."

Athro Richard B. Davies,
Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe

Hwn oedd yr un i noddi senedd rydd:
arweinydd gwâr inni
a thad ein Cynulliad ni
yn nydd rheidrwydd oedd Rhodri.

Alan Llwyd



Dangos sut i fyw'n iachach

Galluogi pobl i wneud dewisiadau doeth am eu ffordd o fyw yw prif nod yr Academi Iechyd a Llesiant newydd ar gampws Singleton.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau fel osteopatheg, awdioleg, gofal mewn galar a chardioleg, mae pwyslais hefyd ar feichiogrwydd a mamolaeth, gyda chefnogaeth i fwydo o'r fron, hypnoenedigaeth, gofal wedi geni a rhianta positif.

Caiff y gwasanaethau eu rhedeg gan weithwyr proffesiynol cofrestredig ac mae llawer ohonynt yn dysgu yng Ngholeg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd yn y Brifysgol ac yn gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd.

Mae'r cynllun hefyd yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr y Brifysgol - sef gweithlu gofal iechyd y dyfodol - gael yr hyfforddiant a'r profiadau ymarferol gorau posibl.

Un enghraifft o gydweithio yw prosiect gyda'r elusen drallod CRUSE i gynnig gwasanaeth galar i bobl ifanc – yr unig un o'i fath yn ne Cymru.

Mae'r Academi'n brosiect cydweithredol rhwng Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd yn y Brifysgol – darparwr mwyaf Cymru o ran addysg gofal anfeddygol – ac ARCH, consortiwm cydweithredol rhanbarthol iechyd y de-orllewin.

Meddai Julia Pridmore, Pennaeth yr Academi Iechyd a Llesiant ym Mhrifysgol Abertawe: "Nod yr Academi yw gwella iechyd a llesiant mewn gwahanol ffyrdd. Rydym eisoes yn darparu gwasanaethau sy'n gwneud gwahaniaeth uniongyrchol, ac rydym hefyd yn gosod y sylfeini ar gyfer y dyfodol, gan ddarparu hyfforddiant gwell i weithlu gofal iechyd y dyfodol."

Un o'r camau nesaf fydd sefydlu ail Academi yn ardal Llanelli.

Datblygu bandeisiau clyfar

Fe fydd bandeisiau'r dyfodol yn gallu dweud wrth gleifion a meddygon pa driniaeth sydd ei hangen a sut y mae clwyfau'n gwella – a hynny diolch i waith ymchwil sy'n cael ei arwain yn Abertawe.

Ar hyn o bryd, mae Sefydliad Gwyddor Bywyd y Brifysgol yn treialu bandeisiau o'r fath, wrth ddatblygu canolfan brawf 5G ar gyfer arloesi digidol.

"Bydd y bandais clyfar yn defnyddio nanotechnoleg i asesu cyflwr clwyf ar unrhyw amser penodol," esboniodd cadeirydd Sefydliad Gwyddor Bywyd Prifysgol Abertawe, yr Athro Marc Clement.

"Bydd y wybodaeth yn cael ei gysylltu gyda'r rhwydwaith 5G gan roi gwybod i'r unigolyn beth yw cyflwr ei glwyf drwy ffôn symudol.

"Bydd y wybodaeth wedyn yn cael ei defnyddio gan y clinigwyr i drefnu triniaeth benodol ar gyfer yr unigolyn."

Gwyddoniaeth i bawb o'r teulu

Bydd Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe'n cynnig penwythnos llawn o ddigwyddiadau difyr i'r teulu cyfan.

Ymysg yr uchafbwyntiau fe fydd digwyddiadau sy'n ymwneud â deinosoriaid, Star Wars, cynrhon a ffiseg gronynnau ym maes chwaraeon.

Caiff yr ŵyl ei chynnal ar yr ail benwythnos ym mis Medi (8-10) mewn partneriaeth ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Bydd Amgueddfa'r Glannau ac Amgueddfa Abertawe'n fwrlwm o weithgareddau i'r teulu cyfan wrth i wyddoniaeth gael ei chyflwyno trwy theatr, cerdd ac arddangosfeydd.

Gwylio genedigaeth mynydd iâ anferthol



Mae gwyddonwyr o Brifysgol Abertawe wedi bod yn gwylio'n ofalus wrth i un o'r mynyddoedd iâ mwyaf erioed dorri'n rhydd o'r Antarctig.

Wrth arwain prosiect ymchwil MIDAS, eu tasg yw archwilio effeithiau cynhesu byd-eang ar ysgafell (neu 'silff') iâ o'r enw 'Larsen C' yn ardal Pegwn y De.

Maen nhw wedi bod yn defnyddio lluniau lloeren i fesur sut y mae hollt yn yr ysgafell yn cynyddu'n gyson ers dechrau'r flwyddyn ac i wylio'r mynydd iâ 5,800 km sgwâr yn torri'n rhydd.

Mae'r darn iâ, sydd tua chwarter maint Cymru, yn pwyso mwy na thriliwn o dunellau ac mae dwywaith mwy o ddŵr ynddo nag sydd yn Llyn Erie, un o Lynnoedd Mawr yr Unol Daleithiau.

O ganlyniad, mae ysgafell iâ Larsen C wedi colli mwy na 12% o'i harwyneb, gan newid tirwedd Penrhyn yr Antarctig am byth.

"Dyma'r pellaf yn ôl mae'r iâ wedi cilio yn ôl cofnodion hanesyddol," meddai'r arbenigwr rhewlifeg o Brifysgol Abertawe, Dr Martin O'Leary. "Byddwn yn gwylio'n ofalus iawn am arwyddion bod gweddill yr ysgafell yn ansefydlog."

Un arall o wyddonwyr Prifysgol Abertawe sy'n arbenigwr ar effeithiau cynhesu byd-eang yw'r Athro Siwan Davies o'r Adran Daearyddiaeth. Fe fydd yn cyflwyno ail gyfres o **Her yr Hinsawdd** ar S4C ym mis Medi, ar ôl bod yn ffilmio'n ddiweddar yn California, Costa Rica ac Uganda.

Y mae am y chwe mis nesaf wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Maine, Orono a hithau wedi ennill Ysgoloriaeth Fullbright i ddatblygu prosiect ymchwil pellach.

Plât i gofio Hywel Teifi

Mae cyfraniad Hywel Teifi Edwards i fywyd Cymru yn cael ei ddathlu ar blât o waith enillydd un o brif wobrau'r Eisteddfod Genedlaethol.

Cafodd Lowri Davies, enillydd y Fedal Aur mewn Crefft a Dylunio yn 2009, ei chomisiynu i wneud y gwaith i godi arian at Gronfa Goffa Hywel Teifi.

Dadorchuddiwyd y plât cyntaf mewn lle addas – sef stondin Pl@iad ar faes y Brifwyl ym Môn ddydd Iau'r Eisteddfod – a hynny yn union wedi i'r Dr Simon Brooks o'r Brifysgol draddodi Darlith Goffa Hywel Teifi yn y Babell Lên.

"Pleser arbennig i ni oedd comisiynu Lowri Davies," meddai Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi. "Yn ogystal â'r ffaith ei bod yn enillydd Medal Aur yr Eisteddfod Genedlaethol, mae hen lestri traddodiadol Abertawe wedi bod yn ysbrydoliaeth i'w gwaith."

Mae Lowri Davies wedi cyfuno llun, tirwedd a geiriau yn ei dyluniad. Amlygir y ddwy aber bwysicaf ym mywyd Hywel Teifi, sef Aberarth, pentref ei febyd yng Ngheredigion, ac Abertawe lle bu'n Athro'r Gymraeg yn y brifysgol. Yno hefyd mae englyn gan yr Athro Alan Llwyd i'r Academi sy'n dwyn ei enw.

"Mae'n fraint cael fy ngwahodd i gynllunio a chreu plât ar gyfer y gronfa," meddai Lowri Davies.

Dim ond 150 plât sydd wedi eu cynhyrchu ac fe fyddan nhw'n gwerthu am £75 yr un gyda'r elw yn mynd i'r gronfa goffa sy'n cefnogi myfyrwyr cyfrwng Cymraeg Prifysgol Abertawe, gan sicrhau cyfleoedd iddyn nhw gyfoethogi eu profiadau a'u gyrfaoedd.

Dyma englyn Alan Llwyd i Academi Hywel Teifi:

'Athrofa ein gwrthryfel, mae'r Gymraeg
mor wâr, mor ddiogel
ynddi hi, hyd oni ddêl
drwy'r wlad ddyhead Hywel.'

Cymru Ddoe a Heddiw

Mae dysgwyr Cymraeg sydd eisoes yn gymharol rugl yn yr iaith wedi cael cyfle i ddysgu mwy am hanes a diwylliant Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ac, oherwydd ei lwyddiant, fe fydd y cwrs cymunedol gan Academi Hywel Teifi yn ailddechrau yn yr hydref.

Mae'r cwrs, **Cymru Ddoe a Heddiw**, yn ymdrin â phob mathau o agweddau o fywyd Cymru gan ddenu siaradwyr iaith gyntaf ac unigolion sydd wedi meistroli'r iaith yn ddiweddarach.

Roedd y siaradwyr yn cynnwys y Prifardd Robat Powell yn trafod cynghanedd a'r traddodiad barddol lleol, Alun Wyn Bevan yn sôn am chwaraeon a'r cynhyrchydd teledu Catrin Evans yn cyflwyno hanes menywod Cymru.

"Mae'n gwbl amlwg fod angen mwy na dosbarthiadau iaith ar bobl sy'n dysgu Cymraeg er mwyn iddyn nhw fanteisio'n llawn ar gyfoeth y Gymraeg, ac mae'r cwrs **Cymru Ddoe a Heddiw** yn ceisio diwallu'r angen hwnnw," meddai Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi.

"Mae'r cwrs hefyd yn cyflawni un o amcanion allweddol Academi Hywel Teifi o fynd â dysg allan i'r gymuned."

Cafodd y cwrs ei gynnal yn Nhŷ Tawe yn Abertawe a Thŷ'r Gwrhyd, y Ganolfan Gymraeg ym Mhontardawe, ac mae modd cofrestru ar gyfer y cwrs nesaf drwy wefan Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe - dysgucymraeg.cymru.

Dilyn ôl troed Madog

Bu tri aelod o staff Academi Hywel Teifi yn cynnal dosbarthiadau Cymraeg yn nhalaith Efrog Newydd yr haf hwn.

Roedd y tri – Mark Stonelake, Chris Reynolds a Glynis Williams o uned Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe – yn Siena College, Albany, ar wahoddiad Cymdeithas Madog, Sefydliad Astudiaethau Cymreig Gogledd America.

Mae'r 'Cwrs Cymraeg' blynyddol yn un o brif weithgareddau'r sefydliad, ac mae'n symud bob blwyddyn rhwng colegau gwahanol yn yr Unol Daleithiau a Chanada.

Mae'r cwrs pythefnos yn cynnwys chwech gwahanol ddosbarth ar gyfer gwahanol lefelau ac, yn ogystal â thua pump awr o wersi bob dydd, mae yna weithdai a gweithgareddau gyda'r nos, gan gynnwys eisteddfod, noson lawen, cwis, ffilm Gymraeg a dawnsio gwerin.

"Roedd yr ymweliad yma'n gyfle gwych i'n tiwtoriaid ehangu eu gorwelion," meddai Mark Stonelake, arweinydd y cwrs eleni.

Mae hefyd yn gyfle i'r uned greu cysylltiadau rhyngwladol yn ôl Iestyn Llwyd, Rheolwr Busnes a Datblygu'r uned.

Dysgwyr yn mwynhau cwis

Lluniau: Chris Reynolds

Myfyrwyr y Gymraeg yn cipio gwobrau

Cyn-Archdderwydd yn ysbrydoli dysgwraig fuddugol

Llun: Yr Urdd

Merch o Aberdâr a raddiodd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe oedd enillydd Medal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd eleni.

Ac un o ddarlithwyr Academi Hywel Teifi, y cyn-Archdderwydd Christine James, oedd ysbrydoliaeth Rebecca Jones, sy'n 22 oed ac oedd wedi derbyn ei haddysg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg cyn dod i Abertawe i wneud cwrs gradd Cymraeg i fyfyrwyr ail iaith.

"Roedd y ffaith fod Christine, fel fi, yn dod o'r Cymoedd ac wedi dysgu'r Gymraeg, wedi rhoi hwb i fi wrth ddilyn y cwrs," meddai Rebecca, a gafodd radd Dosbarth Cyntaf.

"Fy neges i bawb sy'n dysgu'r iaith yw ewch amdani! Manteisiwch ar bob cyfle gewch chi i siarad yr iaith."

Bellach, mae'n gweithio fel cyfieithydd i Gyngor Rhondda Cynon Taf ac yn defnyddio'r Gymraeg yn ei bywyd cymdeithasol. Mae hefyd yn gwirfoddoli gyda Menter Iaith Rhondda Cynon Taf er mwyn ysbrydoli rhagor o ddysgwyr yn ei hardal hi.

Meddai un o'r beirniaid, Eirian Conlon: "Roeddem yn teimlo fod Rebecca yn arbennig yn mynd i wneud cyfraniad mawr yn ei hardal i warchod y Gymraeg ac i ysbrydoli ei chyfoedion."

Roedd myfyrwraig arall o Abertawe Kayleigh Jones, sydd wedi cael gradd Dosbarth Cyntaf yn y Gymraeg a Mathemateg, hefyd yn dathlu ar ôl dod yn ail yn y gystadleuaeth.

Prifardd yn orau am sgiliau iaith

Daeth llwyddiant pellach i brifardd Eisteddfod 2016 wrth iddo ennill Gwobr Norah Isaac y Coleg Cymraeg Cenedlaethol eleni.

Aneirin Karadog, sy'n fyfyriwr ymchwil o dan nawdd y Coleg Cymraeg yn Adran y Gymraeg , Academi Hywel Teifi, a gafodd y canlyniad gorau yn asesiad Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg y Coleg.

"Roedd ennill y wobr yn fraint ac yn brofiad pleserus," meddai Aneirin Karadog. "Ond byddwn yn cyfnewid y wobr yn syth pe bai hynny'n golygu fod y Gymraeg yn wynebu dyfodol llewyrchus.

"Rwy'n edrych ymlaen at barhau â fy ymchwil ac yn gobeithio cael cyfleon pellach i gyfrannu at fywyd y Brifysgol ac at fwrlwm Academi Hywel Teifi."

Gwobrwyo cyfraniad Lauren

Er mai hi yw'r unig un o'i theulu sy'n gallu siarad Cymraeg, mae cyfraniad Lauren Evans i fywyd a diwylliant Cymraeg y Brifysgol yn Abertawe wedi ennill gwobr iddi - Gwobr Goffa Meredydd Evans y Coleg Cymraeg.

Graddiodd gyda gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg y llynedd, ond am ei gwaith yn hyrwyddo'r Gymraeg o fewn a thu hwnt i'r Brifysgol y cafodd Lauren ei gwobrwyo.

Yn ôl Lauren, roedd bod yn Swyddog yr Iaith Gymraeg gydag undeb myfyrwyr y brifysgol, yn gyfle arbennig. "Roedd yn fodd i mi ymdrechu ar ran fy nghyd-fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith, gan godi llais dros y Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith y myfyrwyr yn ehangach," meddai.

Ers iddi raddio mae Lauren wedi gweithio ymhellach ers lles y Gymraeg o fewn y Brifysgol a'i chymuned. Y mae bellach yn astudio am radd MA ond y mae hefyd yn gweithio'n rhan amser i Ferched y Wawr ac yn gweithio fel Cydlynydd Canolfan Gymraeg Tŷ'r Gwrhyd ym Mhontardawe. Trwy'r swyddi hyn, mae'n darparu cyfleoedd i amrywiol gymdeithasau a defnyddwyr y Gymraeg i arddel yr iaith a'i defnyddio'n ddyddiol yn ne- orllewin Cymru.

"Rwyf wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn cymaint o gyfleoedd i gyfrannu i'r bywyd a'r diwylliant Cymraeg o fewn y Brifysgol a'r gymuned. "

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Chwilio am help i arafu clefyd Alzheimer

Mae un o fyfyrwyr PhD y Coleg Cymraeg yn chwarae rhan arloesol yn y frwydr yn erbyn clefyd Alzheimer ac mae'n chwilio am wirfoddolwyr Cymraeg i'w helpu.

Mae gwaith ymchwil Kyle Jones yn Adran Seicoleg Ysgol Gwyddorau Dynol ac Iechyd Prifysgol Abertawe, yn canolbwyntio ar y nam iaith mewn dementia, gan edrych yn arbennig ar siaradwyr Cymraeg.

"Rwy'n ceisio gweld pam fod rhai unigolion yn datblygu symptomau'r clefyd yn gyflymach nag eraill, fel y bydd modd dod o hyd i ffyrdd i arafu'r salwch," meddai Kyle.

Ac mae Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi wedi eilio'r apêl am wirfoddolwyr: "Dyma ymchwil arloesol a fydd nid yn unig o gymorth yn y frwydr yn erbyn clefyd Alzheimer, ond hefyd yn fodd o godi statws y Gymraeg o fewn maes ymchwil gwyddonol."

Gall unigolion a grwpiau sydd yn awyddus i wirfoddoli gysylltu â Kyle Jones drwy ebostio 661444@abertawe.ac.uk neu ffonio 07709 563 975.